# Croesawu teuluoedd sydd ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau

Ein hawgrymiadau defnyddiol ynglŷn â sut y gall eich sefydliad ddod yn fwy hygyrch a chroesawgar i deuluoedd sydd ag anghenion arbennig. Crëwyd mewn partneriaeth â Sam Bowen, Mam Anghenion Arbennig a Swyddog Datblygu Amgueddfa.

Mae Kids in Museums yn annog ymgysylltiad cynhwysol ac yn credu bod amgueddfeydd yno i bawb. Efallai y bydd teuluoedd sydd â phlant gydag anghenion addysgol arbennig ac anableddau (AAAA [neu SEND yn Saesneg]) angen ychydig o gymorth, addasiadau neu hyblygedd ychwanegol er mwyn teimlo bod croeso iddyn nhw mewn amgueddfa.

Y newydd da yw bod llawer o'r gwaith hwn yn reddfol, ymarferol ac o fewn cyllideb yr amgueddfeydd lleiaf hyd yn oed. Newyddion gwell fyth yw bod gwneud eich amgueddfa chi'n groesawgar i bobl AAAA yn mynd i olygu'n anochel ei bod yn fwy hygyrch i grwpiau anghenion arbennig eraill, fel ymwelwyr sydd â dementia, a bydd yn gwella sgiliau'r staff mewn ymgysylltu'n greadigol ac yn gyfannol gyda'r ymwelwyr i gyd.

Ymunwch yn y sgwrs gan ddefnyddio #SENDinMuseums a dilynwch Sam ar Twitter yn @makedoandSEND.

## Y cefndir

AAA neu AAAA? Beth sydd mewn enw? Cwestiwn da!

- Mae AAA yn sefyll am Anghenion Addysgol Arbennig.
- Mae AAAA yn sefyll am Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabl (neu Anabledd).

At ein dibenion ninnau, mae'r rhain yn golygu'r un peth os ydyn ni'n ystyried anghenion a chynhwysedd y gynulleidfa. Ond mae AAA yn derm sy'n cael ei gydnabod yn gyfreithiol mewn deddfwriaeth fel Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Plant a Theuluoedd 2014. Am ein bod eisiau trafod rhwystrau ffisegol i fynediad yn yr adnodd hwn, byddwn yn defnyddio'r term AAAA drwy gydol y darn.

Ar adeg ysgrifennu hwn, mae gan 8% o'r holl blant yn y DU AAAA, yn ôl Arolwg Adnoddau'r Teulu 2018/9 gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth enfawr o anghenion a graddfa eang o arddulliau dysgu. Mae'r gyfran o blant sy'n derbyn diagnosis anghenion cymhleth, sef lefel uwch o anabledd dysgu a chyfuniad o anghenion meddygol a chorfforol, yn tyfu. Ymysg plant o oedran ysgol, mae AAAA gan 1.3 miliwn ohonyn nhw erbyn hyn – sef 14.9 y cant o'r holl ddisgyblion – fel y maen nhw wedi eu cofnodi gan yr Adran Addysg 2019, felly mae hwn yn grŵp mawr o blant i'w hystyried ynghyd â'u teuluoedd.

Mae'r amrywiaeth o wahanol fathau o deuluoedd yn golygu y gallai rhai ymweld gyda mwy nag un plentyn AAAA a bydd gan y rhan fwyaf frodyr neu chwiorydd sydd heb AAAA neu

sy'n 'niwronodweddiadol'. Os nad yw'r amgueddfa'n darparu ar gyfer anghenion y plentyn AAAA, mae'r teulu cyfan yn annhebygol o ymweld.

Gwyddom fod ymweld ag amgueddfa fel teulu'n cael buddion emosiynol mwy hirdymor nag ymweld gydag ysgol. Felly, mae'n hanfodol eich bod yn croesawu'r teulu cyfan drwy gefnogi anghenion plentyn AAAA o fewn y grŵp, nid yn unig er mwyn bod yn gynhwysol, ond hefyd er mwyn i lawer o blant allu ymgysylltu gyda'u teuluoedd.

**Cynllunio**

Dechreuwch drwy ddeall yn llawn pa bethau yr ydych yn eu gwneud yn barod. Yna byddwch yn gweld yn fuan iawn ymhle mae'r bylchau a'r mannau sydd angen eu gwella. Ymrwymwch ychydig o amser – dylai prynhawn fod yn ddigon – i wneud arolwg SWOT hollol onest (cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau) o ba mor addas yw eich sefydliad i bobl AAAA.

Ystyriwch daith gyfan yr ymwelydd:

- A yw eich gwefan yn hygyrch? A fydd teulu AAAA yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth am fynediad yn hawdd er mwyn cynllunio ymweliad?
- A oes rhwystrau ffisegol i fynediad? Gallai'r rhain gynnwys grisiau a pheidio cael maes parcio neu doiled hygyrch.
- A yw eich dehongliadau'n hygyrch? A yw eich blychau arddangos ar uchder y gall rhywun mewn cadair olwyn ei gyrraedd? Ydych chi'n darparu unrhyw adnoddau ychwanegol fel gwarbaciau synhwyraidd?
- Os oes gennych gaffi, ydy hwnnw'n darparu ar gyfer amrywiaeth o ofynion dietegol ac a oes rhywle i deuluoedd fwyta eu bwyd eu hunain?
- A yw eich siop yn gwerthu eitemau synhwyraidd am brisiau arian poced ac, yn ddelfrydol, sy'n gysylltiedig â themâu eich casgliadau?

Yn rhan o'ch arolwg SWOT, mae'n hanfodol eich bod yn adolygu rhwystrau meddal i gynhwysiad fel:

- y rhaglenni
- hyder y staff wrth groesawu ymwelwyr sydd ag anghenion arbennig

Mewn astudiaeth gan SCOPE yn 2018 canfuwyd bod 87% o rieni plant anabl 0 i 5 oed wedi teimlo bod aelodau o'r cyhoedd yn eu beirniadu pan fyddan nhw'n mynd allan gyda'u plentyn anabl.

Y pethau hyn sy'n achosi'r trallod mwyaf. Gall ymwelwyr dderbyn bod step i'w gael mewn hen adeilad yn aml iawn, ond bydd sylwadau negyddol neu ddigroeso gan staff neu ymwelwyr eraill yn difetha ymweliad pobl, hyd yn oed mewn lleoliad sydd â'r mynediad ffisegol mwyaf rhwydd.

Bydd hi'n weddol hawdd asesu cryfderau a gwendidau mewn perthynas â chynhwysiad AAAA yn eich sefydliad. Dylai'r cyfleoedd ddod yn amlwg ond, weithiau, mae'n rhaid i ni gloddio'n ddyfnach i ganfod y bygythiadau.

Efallai mai bygythiadau allanol sy'n eich atal chi rhag bod yn addas i bobl gydag AAAA. Mae eich lleoliad y tu hwnt i'ch rheolaeth, ond mae cynnig allgymorth i grwpiau teulu'n gallu goresgyn hynny.

Elfen anoddach ei chanfod a'i thrin yw unrhyw ragfarn anfwriadol ynglŷn ag AAAA o'r tu mewn i'ch sefydliad. I ddod yn gwbl AAAA gyfeillgar, mae'n rhaid i ethos o gynwysoldeb redeg drwy bob elfen o'ch gwaith. O ganlyniad, mae'n bwysig cynnwys y staff i gyd yn eich adolygiad cyntaf a rhannu'r canlyniadau mor eang ag y gallwch, yn cynnwys i'r Ymddiriedolwyr a'r brif bobl sy'n gwneud y penderfyniadau.

**Ymgynghori**

Gofynnwch pwy ar eich staff sydd â phrofiad o AAAA o fewn eu swydd neu'r tu allan i'r gwaith. Am fod 20% o boblogaeth y DU yn anabl ac am fod gan 8% o'r boblogaeth blant AAAA, mae'n debygol iawn y bydd gan o leiaf un aelod o'ch staff brofiad personol uniongyrchol. Efallai na fyddan nhw eisiau bod yn hyrwyddwr anabledd i'r cwmni, ond mae eu profiad personol yn eithriadol o werthfawr.

Cysylltwch â grwpiau cymorth i deuluoedd AAAA yn eich ardal. Byddwch yn barod i glywed pethau nad oeddech wedi meddwl amdanyn nhw yn eich adolygiad SWOT cychwynnol. Efallai y bydd rhai syniadau'n ymddangos yn amhosibl eu darparu i ddechrau, ond rhowch y rhain i un ochr ac efallai y gwelwch eu bod nhw'n bosibl yn nes ymlaen gyda'r partner neu'r ariannu cywir.

Bydd gan y tîm plant anabl yn eich gwasanaethau cymdeithasol lleol fanylion am grwpiau Portage ac elusennau lleol sy'n darparu gwasanaethau i deuluoedd AAAA. Cyswllt da arall yw ysgolion anghenion arbennig.

**Ymchwil**

Mae llawer o syniadau gwych ar gael i'w benthyg gan amgueddfeydd o amgylch y byd sy'n gweithio gyda chynulleidfaoedd AAAA ac mae pobl yn hapus iawn fel arfer i rannu syniadau. Ymunwch â rhwydweithiau, dilynwch grwpiau ac eiriolwyr AAAA ar y cyfryngau cymdeithasol, a chwiliwch am y wybodaeth ddiweddaraf am y mathau o bethau sy'n effeithio ar y grŵp hwn o deuluoedd. Mae rhai syniadau ynglŷn â lle i gychwyn ar ddiwedd yr adnodd hwn.

**Camau nesaf**

Unwaith y byddwch wedi cwblhau eich adolygiad, ymchwil ac ymgynghoriad SWOT, byddwch yn llawer agosach at ddod yn fwy croesawgar i deuluoedd AAAA. Lluniwch restr gychwynnol o nodau. Gallai'r rhain gynnwys:

- gwella eich gwefan
- cynnig hyfforddiant mewn hyder ag anableddau i'ch staff i gyd
- gwneud eich gweithgareddau i deuluoedd yn fwy hyblyg a chynhwysol i blant AAAA
- cynnig mwy o arwyddion a dehongliadau sy'n addas i bobl AAAA.

Wedi i chi wneud newidiadau, profwch nhw, mireiniwch nhw a hyrwyddwch nhw drwy'r rhwydweithiau lleol yr ydych wedi eu creu. Dywedwch wrth amgueddfeydd eraill fel eu bod yn deall pwysigrwydd croesawu pobl a phlant sydd ag AAAA. Mae hon yn daith y mae'r sector cyfan arni ac mae angen iddi weld enghreifftiau o arferion gorau.

Yn dilyn, mae rhai meysydd allweddol i'w hystyried sy'n helpu i roi profiad ymweld gwych i deuluoedd AAAA.

**Gwefan**

Mae eich gwefan yn allweddol pan fydd teulu AAAA yn ceisio penderfynu a yw am ymweld â'ch amgueddfa. Yn ôl arolwg mynediad 2017 Euan's Guide, mae 95% o'r bobl anabl yn y DU yn edrych ar wefan sefydliad am fanylion mynediad cyn ymweld.

Mae cael cynllun hygyrch yn hanfodol. Mae gan VocalEyes ganllawiau gwych am hyn. Yr un mor bwysig yw gwybodaeth glir am ymweld sy'n cynnwys:

- **lle'r ydych a sut i deithio yno**
  A oes gwybodaeth am barcio a gollwng teithwyr mewn cerbydau wedi addasu ac i ddalwyr bathodynnau glas? A oes unrhyw broblemau mynediad o ran mynd i mewn i'r adeilad? Hyd yn oed os nad oes gennych le parcio cyhoeddus ar eich safle, a fyddai'n bosibl i bobl gadw rhywle o flaen llaw?
- **stori weledol**
  Dangoswch luniau o leoedd allweddol y bydd ymwelwyr yn eu gweld o fewn a thu allan i'r amgueddfa – dylech ddiweddaru hwn i gynnwys mesurau diogelwch COVID-19 ychwanegol. Dyma enghraifft wych gan BALTIC.
- **map synhwyraidd**
  Gall hwn ddangos pethau sy'n sbarduno'r synhwyrau a gall teuluoedd ei lawrlwytho o flaen llaw er mwyn cynllunio eu hymweliad ac osgoi mannau fydd yn cael gormod o effaith ar y synhwyrau. Dylai hwn hefyd gynnwys gwybodaeth am leoliad cyfleusterau fel toiledau a mannau eistedd. Gwelwch y wefan Sensory Spectacle i ganfod rhagor.
- **gwybodaeth glir am y toiledau**
  Cynhwyswch luniau o'r mannau lle mae'r toiledau, gwybodaeth glir ynglŷn â lle maen nhw a faint ohonyn nhw sydd, yn enwedig os oes mynediad cyfyngedig oherwydd cadw pellter cymdeithasol. Os nad oes gennych doiled 'Changing Places', yna rhowch arwyddion i ddangos lle mae'r un agosaf a gwnewch yn siŵr eich bod wedi trafod

gyda'r sefydliad hwnnw sydd â thoiled o'r fath ar ei safle i gytuno bod eich ymwelwyr chi'n cael ei ddefnyddio. Nodwch pa drefniadau mynediad sydd ganddyn nhw, er enghraifft Allwedd Radar (gwnewch yn siŵr bod gennych un i'r amgueddfa ei fenthyg) neu declyn mynediad arall.

- **gwybodaeth am fannau tawel ac oriau tawel**
  Dylai'r adran hon gynnwys ffotograffau a gwybodaeth ynglŷn â sut i'w cyrraedd nhw.
- **bwydlen enghreifftiol ar-lein os oes gennych gaffi**
  Cynhwyswch wybodaeth am gynghori ynglŷn ag alergeddau. Nodwch ei fod yn iawn i deuluoedd gydag anghenion ychwanegol fwyta bwyd y maen nhw wedi ei baratoi eu hunain os oes raid. Mae gan rai plant AAAA ofynion bwyta penodol neu gyfyngedig iawn ac efallai nad ydych yn gwerthu'r pethau y gallan nhw neu y byddan nhw'n eu bwyta.
- **manylion y prif bwynt cyswllt**
  Gadewch iddyn nhw wybod gyda phwy i gysylltu os bydd unrhyw beth yn mynd o'i le yn ystod yr ymweliad neu os bydd teulu angen cymorth. A yw teuluoedd yn gallu archebu pâr arall o ddwylo o flaen llaw i'w helpu yn ystod eu hymweliad? Mae gan Eureka! y gwasanaeth hwn a gall wneud byd o wahaniaeth i'r ymweliad.

Mae COVID-19 yn golygu bod rhai teuluoedd AAAA yn debygol o barhau'n ymwelwyr ar-lein am gyfnod. Mae'n bwysig cael cynnwys hygyrch a gweithgareddau sy'n addas i AAAA yn rhan o'ch cynnig dysgu ar-lein er mwyn eu cynnwys nhw. A oes unrhyw ffyrdd eraill y gallan nhw gyfranogi, er enghraifft cystadlaethau ar-lein neu gyfleoedd i rannu lluniau o waith celf y mae eu plant wedi eu creu ar eich tudalen Facebook?

**Staff sy'n hyderus am anableddau**

Roedd astudiaeth gan Ecclesiastical yn 2019 yn dangos bod 42% o rieni sydd â phlant ag anghenion arbennig wedi dweud bod staff neu ymwelwyr yn anghyfeillgar neu'n gwneud iddyn nhw deimlo'n anghyfforddus yn ystod ymweliadau ag amgueddfeydd neu safleoedd treftadaeth.

Gall staff hyfforddedig sy'n hyderus wrth groesawu teuluoedd AAAA wneud gwahaniaeth enfawr i ymweliad ag amgueddfa. Gwnewch yn siŵr bod pawb yn eich sefydliad yn teimlo eu bod yn gallu bod yn gyfeillgar a chefnogol i'r ymwelwyr hyn.

Ystyriwch fynd ar y cynllun Laniard Blodyn Haul neu greu un ar gyfer yr amgueddfa lle gall ymwelwyr sydd ag anghenion ychwanegol (anableddau anweledig yn enwedig) ddangos bod ganddynt anghenion, gan helpu staff i wybod y byddant efallai angen mwy o gymorth yn ystod ymweliad.

**Gwybodaeth ac arwyddion hygyrch**

Efallai y bydd angen i deuluoedd AAAA gael cymorth gwahanol i ganfod gwybodaeth i'w tywys nhw drwy'r amgueddfa ac i ddysgu mwy iddynt am y dangosiadau. Gofynnwch am

gymorth a chyngor gan sefydliadau sy'n cefnogi pobl Ddall a phobl Fyddar neu sydd â Nam ar y Clyw i ddeall pa ddulliau cyfathrebu sy'n gweithio ar gyfer eu hanghenion nhw.

Yn ogystal â thestun mawr, dolenni sain a theithiau arwyddo BSL, a yw staff eich amgueddfa chi wedi eu hyfforddi mewn arwyddo Makaton?

Mae defnyddio symbolau (sydd weithiau'n cael eu galw'n PECs: symbolau Cyfathrebu drwy Gyfnewid Lluniau) yn ddefnyddiol ar gyfer arwyddo cyfarwyddiadau fel 'cyffyrddwch' neu 'peidiwch â chyffwrdd', yn ogystal â chyfleusterau fel bwyd, siop neu doiled.

Gall symbolau fod yn ffordd effeithiol hefyd o dywys teuluoedd drwy'r amgueddfa ar lwybrau sydd â themâu. Er enghraifft, yn hytrach na chanolbwyntio ar ddyddiadau, anogwch deuluoedd i archwilio'r orielau yn ôl themâu lliw, deunyddiau neu siâp. Mae gwahanol gwmnïau'n cynnig symbolau ac, i'w defnyddio nhw'n fasnachol, bydd angen i'r amgueddfa gael trwydded. Os yw hyn y tu hwnt i allu ariannol yr amgueddfa, yna bydd ffotograffau gyda'r gair oddi tanynt yn opsiwn da arall.

**Mannau tawel ac Oriau tawel**

Os oes gennych le, cynigiwch ystafell 'ymdawelu' neu neilltuo. Yn ddelfrydol, ni fydd llawer o ddim i ysgogi'r synhwyrau yn yr ystafell hon a bydd seddi cyfforddus yno, yn ogystal â mat i orwedd arno os oes raid. Gallai ystafelloedd fel hyn gael eu defnyddio i 'ymdawelu', llonyddu'r meddwl a thawelu unrhyw synhwyrau sydd wedi eu gorlethu, neu gall fod yn lle preifat i roi meddyginiaeth neu fwydo trwy diwb. Mae gan Eureka! enghraifft wych o le agored mawr sydd wedi ei glustnodi ar gyfer hynny.

Bydd oriau tawel neu oriau agor hyblyg yn fuddiol i amrywiaeth fawr o anghenion, nid i bobl gydag Awtistiaeth yn unig. Ar hyn o bryd, gallan nhw helpu amrywiaeth o bobl a allai gael eu heffeithio'n ddifrifol gan COVID-19. Er bod awr 'dawel' yn dda i rai pobl, dylech fod yn gynhwysol ymhob awr yr ydych yn agored.

**Adnoddau hygyrch**

Mae adnoddau hygyrch fel llwybrau, gwarbaciau synhwyraidd a gweithgareddau ar gael ar gyfer mwy na dim ond y plant sydd ag AAAA – maen nhw'n golygu bod y teulu cyfan yn cael ymweliad llawer mwy esmwyth. Maen nhw'n creu ffocws a strwythur, gan alluogi i brofiad yr amgueddfa fod yn gyfannol ac yn llawer llai o straen.

Ystyriwch lwybrau gyda thema sy'n canolbwyntio ar liw penodol neu'n defnyddio gwrthrych, fel pethau a wisgwch, neu anifeiliaid. Pan fyddwch chi'n cynllunio eich llwybrau, peidiwch ag anghofio cynnwys mannau gorffwyso.

Mae gwarbaciau synhwyraidd yn dod yn bethau mwy cyffredin mewn amgueddfeydd. Yn wreiddiol, eu pwrpas oedd arafu'r plentyn neu ei gadw'n brysur gyda theganau synhwyraidd neu deganau 'ffidlan' fel bod y teulu'n gallu aros yn yr amgueddfa'n hirach. Ond, erbyn hyn

maen nhw'n fath o ddehongliad hygyrch i'r plentyn hwnnw ac yn system gymorth i'r teulu cyfan sy'n cysylltu ag arddangosiadau'r amgueddfa.

Ar yr un pryd, byddwch yn agored i'r syniad bod y teulu'n defnyddio'r lle a'r oriel dim ond fel cyfle i fod mewn amgylchedd gwahanol hyd yn oed os nad ydyn nhw'n sylwi ar eich dangosiadau hyfryd neu'n defnyddio eich gwarbaciau neu lwybrau. Os bydd yr ymweliad yn llwyddiannus, byddan nhw'n dod yn ôl ac yn edrych yn fanylach ar yr arddangosfeydd y tro nesaf.

## Gweithgareddau

Mae nifer gynyddol o amgueddfeydd wedi datblygu sesiynau grŵp teulu AAAA a hyd yn oed gymdeithasau. Mae'r rhain yn ffordd wych o ymgysylltu â theuluoedd AAAA lleol a dylen nhw bob amser gael eu llunio mewn cydweithrediad â nhw.

Er mai sesiynau penodol addas i AAAA yw'r safon aur, y realiti yw nad oes gan amgueddfeydd llai y staff i gefnogi'r rhain yn aml iawn. Hefyd, efallai nad yw rhai teuluoedd sydd â phlant nad ydynt yn blant AAAA eisiau dod â'r teulu i gyd i sesiwn penodol i AAAA. Felly, mae'n hanfodol eich bod yn adeiladu hyblygedd i mewn i'r gweithgareddau i gyd a gynigiwch fel bod unrhyw deulu'n gallu ymuno.

Gallwch addasu unrhyw weithgaredd crefft i fod yn gynhwysol. Meddyliwch am y cynnyrch ar y diwedd fel canlyniad hapus y sesiwn ac ystyriwch mai nod y sesiwn yw'r profiad maen nhw'n ei gael. Bydd trin defnyddiau a'u profi nhw gyda'r synhwyrau i gyd yn golygu llawer mwy i rai plant na chreu'r fersiwn mwyaf realistig o anifail neu waith celf.

Dyma weithgareddau eraill sy'n gweithio'n dda gyda chynulleidfaoedd AAAA:

- cyffwrdd casgliadau
- profiadau aml-synhwyraidd
- offer rhyngweithiol
- ffilm a sain
- dweud stori
- cynnwys y plant yn y broses, eu croesawu nhw a dangos y lle iddyn nhw.

Helpwch blant i brofi rhywbeth newydd a gwahanol a dod â'u dehongliad eu hunain i'r gweithgaredd.

## Dweud stori synhwyraidd

Mae hwn yn weithgaredd cynhwysol gwych i bobl ag AAAA. Dyma rai awgrymiadau:

- Seiliwch hwn ar wrthrych neu stori wych o'r amgueddfa
- Ystyriwch gymryd y plant ar daith drwy'r orielau i'r man dweud stori
- Dewiswch le priodol yn yr amgueddfa a gosod y lle'n barod.

- Defnyddiwch sain, defnyddiau o wahanol deimladau, lliwiau, propiau, gwrthrychau, chwarae rôl, cerddoriaeth. Gwnewch yn siŵr bod gennych lawer o wrthrychau!
- Cynhwyswch ystumiau, rhythm, odli ac ailadrodd, rhai arwyddion Makaton a llawer o gyfranogaeth gan y gynulleidfa.
- Darparwch hyfforddiant mewn adrodd stori i staff/gwirfoddolwyr fel Adrodd Stori'n Gynhwysol ac yn Fyw.
- Ystyriwch sut unigolion yw eich cynulleidfa a meddyliwch am ffyrdd o'u cynnwys nhw.
- Cynhwyswch le i gadeiriau olwyn ger y blaen.
- Cadwch e'n fyr a hyblyg.

**Siop**

Mae defnyddio siop amgueddfa'n gallu bod yn rhan bwysig o ymweliad teulu ac yn gyfle gwych i ddysgu sgiliau cymdeithasol ac annibyniaeth. Ystyriwch werthu eitemau sy'n addas i'r synhwyrau (gallwch hyd yn oed gael teganau synhwyraidd sy'n cysylltu â thema unrhyw gasgliad bron!) a hefyd cynigiwch becyn y gallan nhw dalu amdano o flaen llaw ac yna gasglu'r bag o'r siop. Bydd hyn o gymorth i'r bobl hynny sy'n teimlo na fyddan nhw'n gallu mynd i mewn i'r siop.

**Ystyriaethau terfynol**

Unwaith y byddwch wedi camu i mewn i fyd AAAA ac wedi gweithio gyda phobl ifanc a'u teuluoedd, bydd y newid yn dod â manteision i adrannau eraill o'ch sefydliad ac i lesiant eich staff. Mae llawer o'r pethau sy'n addas i AAAA yn gwneud safle'n fwy hygyrch hefyd i oedolion sydd ag anabledd dysgu, yn ogystal â chyflyrau fel dementia. Mae unrhyw welliannau i fynediad ffisegol yn gwneud y lle'n fwy hygyrch ar unwaith i deuluoedd sydd â babanod mewn bygis. Mae'r effaith i'w weld drwy'r safle cyfan ac yn economaidd yn y cyswllt hwn hefyd.

Unwaith y byddwch yn dechrau gweithio gyda phlant AAAA a'u teuluoedd, mae rhywbeth gwych yn digwydd, rydych yn dechrau dysgu ffyrdd newydd o ymddiddori mewn pethau a'u gwerthfawrogi, yn cynnwys eich gwaith a'ch casgliadau. Gall fod yn brofiad sy'n eich rhyddhau chi ac, ar yr un pryd yn sodro eich traed yn sownd ar y ddaear.

**Dolenni ac adnoddau defnyddiol**

**Hygyrchedd y Wefan**

- Hygyrchedd gwefan VocalEyes
- Cyflwr y Mynediad i Amgueddfeydd 2018: ydy gwefan eich amgueddfa'n croesawu ac yn rhoi gwybodaeth i ymwelwyr anabl?
- Canllaw i arolwg am fynediad digidol EMBED

**Canllawiau mynediad ar-lein**

- Eureka!
- Museum of London
- The Postal Museum
- The Deep, Hull

**Canllawiau a theithiau mynediad wedi eu ffilmio**

- Abbey House Museum
- Fitzwilliam Museum
- The Lowry

**Straeon Gweledol**

- Jewish Museum Llundain
- Museum of the Order of St John
- The Postal Museum
- Royal Museums Greenwich

**Canllawiau synhwyraidd amgueddfeydd**

- Canllawiau synhwyraidd Eureka!
- Map Synhwyraidd yr Academi Brenhinol
- Map Synhwyraidd yr Academi Brenhinol ar gyfer arddangosfa Picasso a Phapur
- Map Synhwyraidd Amgueddfeydd Brenhinol Greenwich
- Hyfforddiant Sensory Spectacle ar sut i greu canllawiau synhwyraidd

**Gweithgareddau i Deuluoedd AAAA**

- Blog Autograph am greu rhaglen drwy'r DU gyfan o weithdai AAAA
- Discover Children's Story Centre cymdeithasau am ddim i blant anabl a'u teuluoedd a'u gofalwyr
- Sesiynau addas i AAAA Hepworth Wakefield
- Gorsafoedd Archwilio a Thynnu Llun Hepworth Wakefield

**Gwarbaciau amgueddfa neu gasgliadau trin a theimlo AAAA**

- Canllaw i Warbaciau AAAA – SEND in Museums
- Hepworth Wakefield
- Amgueddfa Maidstone
- Troli Mynediad i Bawb yn Jewish Museum

**Ystafelloedd ymdawelu a synhwyraidd**

- Ystafell ymdawelu Eureka!
- Ystafell aml-synhwyraidd i blant dan 5 yn Leeds City Museum
- Ystafelloedd tawel Amgueddfa RAF Llundain

**Partneriaethau prosiect treftadaeth/amgueddfeydd ac AAAAi Deuluoedd AAAA**

- Ymddiriedolaeth Genedlaethol Croome ac ysgolion arbennig lleol
- Amgueddfeydd Prifysgol Rhydychen ac Academi Iffley i blant sydd ag anghenion addysgol arbennig cymhleth
- Prosiect AAAA Datblygiad South East Museum

I gael rhagor o wybodaeth a chyngor, edrychwch ar wefan SEND in Museums.